

Gwybodaeth i Gleifion Naltrexone

Gwasanaeth Alcohol a Chyffuriau Arbenigol Aneurin Bevan

Beth yw Naltrexone?

Mae Naltrexone yn gyffur y gellir ei roi ar bresgripsiwn i bobl sy'n ddibynol ar alcohol i'w helpu i leihau chwant ac ymatal rhag yfed. Mae'n *wrthweithydd derbynyddion opioid* sy'n trin dibyniaeth ar alcohol a dibyniaeth ar opioidau yn bennaf. Mae gwrthweithyddion yn eu rhwymo eu hunain i dderbynyddion yn yr ymennydd ond yn hytrach na'u hactifadu, maent yn eu blocio. Mae Naltrexone yn rhwystro effeithiau opioidau fel heroin, morphine a codeine.

Sut mae'n gweithio o ran dibyniaeth ar alcohol?

Nid yw Naltrexone yn blocio alcohol ond mae'n ymddangos ei fod yn torri ar draws y llwybrau yn yr ymennydd sy'n rhyddhau endorffinau pan fydd alcohol yn cael ei yfed. Cemegau sy'n digwydd yn naturiol ac sy'n achosi teimladau o bleser ac ymlacio yw endorffinau. Drwy flocio eu heffeithiau, mae naltrexone yn lleihau pleser alcohol ac yn lleihau'r chwant amdano.

Pa mor dda mae'n gweithio?

Mae Naltrexone yn gweithio i rai pobl ond nid i eraill.

Beth yw'r sgil effeithiau?

Gall Naltrexone achosi cyfog, pen tost, insomnia, pendro a gorbryder. Mewn rhai achosion gall brech ddatblygu. Os cewch unrhyw sgil-effeithiau, trafodwch y rhain gyda'ch meddyg.

Pwy na all gymryd Naltrexone?

Unrhyw un sy'n cymryd poenleddfwyr opioid (e.e. codeine, morphine, tramadol) gan y bydd y naltrexone yn blocio'r derbynyddion a gall achosi symptomau diddyfnu difrifol. Menywod beichiog a rhai sy'n bwydo ar y fron. Pobl â chlefyd yr iau neu'r arennau.

Pa mor hir galla i gymryd Naltrexone?

Nid yw Naltrexone i fod yn ateb hirdymor i ddibyniaeth ar alcohol. Yn hytrach, mae'n ddefnyddiol yn y camau cychwynol ar ôl dadwenwyno tra byddwch yn dysgu ffyrdd o fyw heb alcohol. O'r herwydd, caiff ei roi ar bresgripsiwn ochr yn ochr ag

ymyriadau seicogymdeithasol (gweler isod) a dim ond am hyd at flwyddyn y caiff ei bresgripsiynu. Fodd bynnag, os byddwch yn dychwelyd i yfed alcohol yna bydd y feddyginiaeth yn cael ei hatal a bydd opsiynau triniaeth yn cael eu cynnig.

Pethau eraill y mae angen i fi eu gwneud

Fel rhan o'ch triniaeth bydd angen i chi dderbyn ymyriadau seicogymdeithasol. Mae hynny'n golygu y bydd angen i chi fynychu asiantaeth trin alcohol a chymryd rhan mewn gwaith cwnsela ac unrhyw therapïau eraill y maent yn teimlo sy'n addas at eich anghenion. Dyma'r prif waith a fydd yn symud pethau yn eu blaen, a bydd yn eich helpu i newid y ffordd rydych chi'n meddwl ac yn teimlo am alcohol. Mae'r naltrexone yn help dros dro i chi tra byddwch yn rhoi'r driniaeth hon ar waith. Os nad ydych yn cymryd rhan yn yr ymyriadau seicogymdeithasol yna bydd y feddyginiaeth yn cael ei hatal.

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English”.**